**DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990**

**HYSBYSIAD O ORCHYMYN ARFAETHEDIG CAU PRIFFYRDD (TIR YM MAES PARCIO ARGOS, PARC MANWERTHU PLAS COCH, FFORDD PLAS COCH, PLAS COCH, WRECSAM LL11 2BW) 202-**

Mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu gwneud Gorchymyn o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("Deddf 1990") i awdurdodi cau'r darn o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn. Mae Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod angen cau'r briffordd. Nid awdurdodir cau'r briffordd ond er mwyn gwneud y datblygiad yn unol â'r caniatâd cynllunio a roddwyd o dan Ran 3 o Ddeddf 1990 gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar 22 Gorffennaf 2024 o dan y cyfeirnod P/2023/0384, ac a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn.

Mae'r Gorchymyn yn gwneud darpariaeth ar gyfer cadw hawliau ymgymerwyr statudol ar gyfer unrhyw gyfarpar o dan y briffordd, ynddi, arni, drosti, ar ei hyd neu ar ei thraws.
Bydd Gorchymyn Cau Priffyrdd (Tir ym Maes Parcio Argos, Parc Manwerthu Plas Coch, Ffordd Plas Coch, Plas Coch, Wrecsam LL11 2BW) 202- ("y Gorchymyn"), os caiff ei wneud, yn peidio â chael effaith os daw'r caniatâd cynllunio mewn cysylltiad â'r datblygiad i ben neu os caiff ei ddirymu.

Yn ystod yr 28 o ddiwrnodau o 21 Tachwedd 2025 ymlaen, gellir edrych ar gopïau o'r Gorchymyn drafft a'r plan a adneuwyd yn rhad ac am ddim yn ystod oriau swyddfa arferol yn Llyfrgell Wrecsam, Ffordd Rhosddu, Wrecsam LL11 1AU, neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA2272720.

Rhaid anfon unrhyw wrthwynebiadau yn ysgrifenedig, gan nodi ar ba sail y'u gwneir, i: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ neu drwy e-bost i Trafnidiaeth.YGangenOrchmynion@llyw.cymru erbyn 18 Rhagfyr 2025.

Os ydych yn dymuno gwrthwynebu, cefnogi neu gyflwyno sylwadau, efallai y bydd angen i Lywodraeth Cymru ymgynghori â phersonau a sefydliadau y tu allan i Lywodraeth Cymru. Fel rhan o'r broses ymgynghori, bydd yr wybodaeth yr ydych wedi ei rhoi a'ch data personol yn cael eu trosglwyddo i'r ceisydd/datblygwr ac, os oes angen, i'r awdurdod priffyrdd lleol i'w galluogi hwy i ymateb i chi. Fodd bynnag, ni fyddwn yn datgelu eich manylion personol ond pan fo hynny'n angenrheidiol er mwyn ymdrin â'r materion a godwyd. Pan na fo gwrthwynebiadau yn gallu cael eu datrys a phan fo'r Gorchymyn yn dod yn

**TOWN AND COUNTRY PLANNING ACT 1990**

**NOTICE OF PROPOSED STOPPING UP OF HIGHWAYS (LAND AT ARGOS CAR PARK, PLAS COCH RETAIL PARK, PLAS COCH ROAD, PLAS COCH, WREXHAM LL11 2BW) ORDER 202-**

The Welsh Ministers propose to make an Order under section 247 of the Town and Country Planning Act 1990 ("the 1990 Act") to authorise the stopping up of the length of highway described in Schedule 1 to this Notice. The Welsh Ministers are satisfied that the stopping up is necessary, and it will be authorised only in order to enable the development to be carried out in accordance with planning permission granted under Part 3 of the 1990 Act by Wrexham County Borough Council on 22 July 2024 with reference number P/2023/0384, and described in Schedule 2 to this Notice.

The Order makes provision for the preservation of rights of statutory undertakers for any apparatus under, in, on, over, along or across the highway.
The Stopping Up of Highways (Land at Argos Car Park, Plas Coch Retail Park, Plas Coch Road, Plas Coch, Wrexham LL11 2BW) Order 202- ("the Order"), if made, will cease to have effect if planning permission in respect of the development expires or is revoked.

During 28 days from 21 November 2025 copies of the draft Order and the deposited plan may be inspected free of charge during normal office hours at Wrexham Library, Rhosddu Road, Wrexham LL11 1AU, or may be obtained free of charge from the address below quoting reference qA2272720.

Objections, specifying the grounds on which they are made, must be sent in writing to Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ or by email to TransportOrdersBranch@gov.wales by 18 December 2025.

Should you wish to object, support or make representations, the Welsh Government may need to consult with persons and organisations outside the Welsh Government. As part of the consultation process, the information you have provided and your personal data will be passed to the applicant/developer and, if necessary, to the local highway authority to enable them to respond to you. We will, however, only disclose your personal details where it is necessary to do so to address the issues raised. Where objections cannot be resolved and the Order becomes subject to a Public Inquiry ("PI"), all correspondence

destun Ymchwiliad Cyhoeddus ("YC"), caiff pob gohebiaeth ei chopïo i Arolygydd yr YC ac fe'i cedwir yn y Llyfrgell YC lle y bydd ar gael i'r cyhoedd.

Os nad ydych yn dymuno i ddata personol gael eu hanfon ymlaen at drydydd parti, dylech nodi pam pan fyddwch yn cyflwyno eich gohebiaeth a bydd Gweinidogion Cymru yn copïo'r sylwadau i'r trydydd parti priodol gyda'r enw a'r cyfeiriad wedi eu dileu. Os bydd YC yn cael ei gynnal, bydd yr Arolygydd yn gweld y sylwadau ond efallai y bydd yn rhoi llai o sylw iddynt o ganlyniad i hyn.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-cau.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ neu drwy ofyn amdano oddi wrth Trafnidiaeth.YGangenOrchmynion@llyw.cymru.**

**C WYNN**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**ATODLEN 1**
**Y darn o briffordd sydd i'w gau**

Darn trionglog ei siâp o briffordd ar Ffordd Plas Coch, Wrecsam, LL11 2BW, sy'n 18.4 o fetrau o hyd, yn 1.6 metr o led ac sydd wedi ei farcio â llinellau sebra ar y plan a adneuwyd.

**ATODLEN 2**
**Y Datblygiad**

Creu bwyty ar wahân gyda chyfleuster gyrru drwodd, maes parcio, tirlunio a gwaith cysylltiedig ar y tir ym maes parcio Argos, Parc Manwerthu Plas Coch, Ffordd Plas Coch, Plas Coch, Wrecsam LL11 2BW.

is copied to the Inspector of the PI and is available in the PI library when it becomes publicly available.

If you do not wish personal data to be forwarded to third parties, you should state why when submitting your correspondence and the Welsh Ministers will copy the representations to the appropriate third parties with the name and address removed and if there is to be a PI, the representations will be seen by the Inspector who may give them less weight as a result.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/stopping-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ or by requesting it from TransportOrdersBranch@gov.wales.**

**C WYNN**
Transport
Welsh Government

**SCHEDULE 1**
**Length of highway to be stopped up**

A triangular shaped length of highway on the land at Argos car park, Plas Coch Road, Plas Coch, Wrexham LL11 2BW, with a length of 18.4 metres, a width of 1.6 metres and marked with zebra hatching on the deposited plan.

**SCHEDULE 2**
**The Development**

Creation of a freestanding restaurant with drive through facility, car parking, landscaping and associated works on the land at Argos car park, Plas Coch Retail Park, Plas Coch Road, Plas Coch, Wrexham LL11 2BW.